**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Medi 2011**

**ADRODDIAD MONITRO BWRDD YR IAITH GYMRAEG**

**Adroddiad gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynglŷn â 2010-11, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed i gwrdd â'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth 2010-13.

## Gwybodaeth

3 Y llynedd, canmolwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr a oedd yn dangos cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2009-10.

4 Mae adroddiad eleni eto yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau dwyieithog i bobl Gogledd Cymru.

5 Mae'r cyfnod rhwng 2010-11 wedi gweld cynnydd sylweddol yn arbennig mewn perthynas â hyrwyddo'r ffaith bod ein harchwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar gael yn y ddwy iaith. Cafodd yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis' ei hymestyn ym Mawrth 2011 pan fu'r tri

gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cydweithio eto, gyda chefnogaeth ariannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, y tro hwn i greu DVD newydd i godi proffil yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref sydd ar gael yn ddwyieithog, a hynny gyda chymorth y gyflwynwraig Sarra Elgan. Yn y gogledd, arweiniodd yr ymgyrch at gynnydd sylweddol yn yr archwiliadau a gynhaliwyd yn Gymraeg – 5.98% o gyfanswm yr archwiliadau a gynhaliwyd yn Ionawr-Ebrill 2010 o'i gymharu ag 11.71% yn yr un cyfnod eleni pan lansiwyd yr ymgyrch.

6 Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gwneud amod o'r gofyniad i bob aelod newydd o'r staff, ynghyd â'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, ddysgu Cymraeg sgyrsiol sylfaenol hyd at safon Lefel 2 yn ein rhaglen CD, ac mae hyn wedi parhau i gael ei hyrwyddo ymysg y staff cyfredol yn ystod 2010-11. Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn ymwneud â dysgu Cymraeg wedi cael eu cynnal mewn gwahanol orsafoedd tân trwy'r gogledd er mwyn rhoi cyfle i staff fanteisio ar y rhaglen ddysgu hon, ac i ddysgu rhagor am yr adnoddau dysgu Cymraeg sydd ar gael. Yn ystod 2010-2011, cafodd cyfanswm o 59 aelod o'r staff lwyddiant yn Cymraeg Lefel 1, 103 yn Cymraeg Lefel 2 ac 8 yn Cymraeg Lefel 3.

7 Mae'r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, yn ogystal â darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Eto eleni, buom yn llwyddiannus yn ein cais am grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg tuag at hyrwyddo'r Gymraeg ymysg ein gweithlu. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys sefydlu a chefnogi ein Hyrwyddwyr Iaith trwy'r rhanbarth, a hyrwyddo cyfarfodydd dwyieithog yn fewnol. Bydd y llwyddiannau a gafwyd yn hyn o beth yn parhau i gael eu datblygu yn y tymor hir.

8 Ym mis Ionawr 2010, cytunwyd ar gyfres newydd o ddangosyddion perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg, a bellach mae data yn ymwneud â sgiliau a dysgu Cymraeg yn cael eu casglu a'u cofnodi yn Workforce, sef cronfa ddata'r adran Adnoddau Dynol. Mis Mai 2011 oedd y tro cyntaf i'r data yma fod ar gael i roi darlun o'r sgiliau yn 2010-11, a bydd yn offeryn gwerthfawr ar gyfer monitro cynnydd a thargedu unrhyw feysydd i'w gwella.

## Argymhelliad

9 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, a chymeradwyo Adroddiad Monitro 2010-11 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.